Fy nghyfaill dychmygol

Un annwyl, llawn hwyl ydy fy nghyfaill dychmygol i. Un sydd wastad wrth fy ymyl, un sydd wastad yn dangos cefnogaeth pan fydda i angen. Un da iawn ydy hi am gynnig cymorth, ac mae hi'n rhagorol am gadw cyfrinach, ac yn sicr dydy hi byth yn eich gadael i lawr. Ond,yn fy nychymyg, mae hi'n gallu bod yn ofnadwy o ddireidus ar adegau.

Pedair coes sydd ganddi a chynffon hir. Mae gan fy nghyfaill dychmygol hefyd lygaid glas sy'n pefrio'n yr haf. Neidr o dafod sydd ganddi sy'n ei galluogi i fachu unrhyw frechdan ar unrhyw fwrdd heb boeni am ei uchder. Dydy ei dannedd hi ddim yn finiog iawn, maen nhw mor fach â fy nannedd i pan roeddwn i yn fabi. Wrth gwrs, dydw i ddim yn golchi ei dannedd hi. Dwn i ddim be mae hi'n ei fwyta tu allan pan fyddai'n mynd i wneud eu busnes ac i gael awyr iach.

Rhag ofn nad ydych wedi dyfalu eto, y ci bach prydfertha a weloch chi erioed yw fy nghyfaill dychmygol i. Bob bore, dychmygaf glywed ei phawennau yn cropian ar hyd y grisiau. Ambell waith, pan fyddaf i yn trio mynd yn slei bach i lawr y grisiau mor ddistaw â llygoden dydw i yn bendant ddim yn llwyddo. Mae'r grisiau yn rhuo o glecs anferthol wrth neidio o ris i ris. Cadi yw enw fy ffrind dychmygol ac mae hi'n berffaith. Erbyn hyn, mae hi wedi dysgu yn union pa risiau sydd yn gwichian a pha rhai sydd yn dawel. Efallai ei bod hi'n ymarfer cerdded i fyny ac i lawr pan fyddaf yn yr ysgol neu'n rhywle yn gweithio'n galed. Pwy a wyr? Beth bynnag, pan byddaf yn rhuo chwyrnu yn y bore bach a'r wawr yn dechrau torri, dychmygaf glywed sŵn dripian curiadau'r glaw ar y ffenest. Ond, cyn i mi gael cyfle i edrych yn iawn mae Cadi fy nghyfaill dychmygol yn taro ei thrwyn bach llysnafeddog gwlyb rownd y drws cilagored cyn nedio ar y gwely a bownsio i fyny ac i lawr yn llawn cyffro ar fy mhen a finnau'n dal i bendwmpian. Dychmygaf ei chynffon yn hofran yn yr aer wrth iddi gymryd y cam dewraf erioed i sboncio oddi ar y gwely. Mae'n glafoerio ar hyd fy wyneb mewn balchder o fy ngweld ond mewn rhai eiliadau dychmygaf glywed twrw mawr dros y tŷ, Mam yn gweiddi " Cer â'r ci budr 'na lawr y munud yma". Wrth i'r ci druan glywed yr holl sŵn mae'n crynu fel deilen yn fy mreichiau.

Gwell na dim byd, mae ymolchi cŵn yn gymaint o hwyl. Meddyliwch, shampŵ i gŵn, beth nesaf? Lledaenu llond llaw o hylif melyn, drewllyd. Roeddwn i yn meddwl mai cathod oedd yn ofni dŵr ddim cŵn. Yn fy nychymyg mae darlun clir o gi bach gwlyb a'i glustiau llipa yn wlyb diferol. Ambell waith, pan byddai'r dŵr yn rhy boeth byddai'n ochneidio o'r dŵr. Dydw i yn amlwg ddim am roi fy nghyfaill dychmygol i yn y bath, byddai hynny yn achosi glendid ofnadwy. Y blew i gyd ar waelod y bath, a Mam yn cwyno bod twll y plwg yn llawn o flew trwchus anghyfarwydd, dim diolch! Ond, yn lle bath mawr braf, mae'r ci yn cael lle sydd ddim mor bleserus sef y sinc! Ar ôl ymolchi'r ci, y ffordd unigryw mae hi'n sychu ydy cychwyn gyda'i thrwyn a gweithio am y nol at ei chynffon, ysgwyd ei chorff i gyd yn frysiog, ffordd i fy nhalu i nol ar ôl gorfod eistedd mewn sinc yn llawn o ddŵr oer!

Ar foreau ysgol, dychmygaf hi'n syllu'n syn arnaf a'i llygaid fel soseri'n pefrio o chwilfrydedd. Trio fy mherswadio i y mae hi, trio gwneud i fi aros adre iddi gael ei hanwylo trwy'r dydd ac i gael cwmni braf yn lle aros adre mewn tawelwch llethol trwy oriau hirion y bore. Ond, dydy'r ffaith ei bod yn trio edrych yn ddigalon a gwneud llygaid llo bach yn bendant ddim yn ddigon i fi gadw draw o'r ysgol am ddiwrnod cyfan. Er, cefais fy nhemtio i aros adre gyda hi sawl gwaith ond peidiwch chi â dweud wrth neb!

Ar ôl dod adre o'r ysgol ar nos Wener ar ôl cael wythnos brysur a chaled mae fy nghyfaill dychmygol yn taro gwên ar fy wyneb mwyaf sydyn, ar fy wyneb eithriadol o flinedig. Mae'r ci yn sefyll yn y ffenest ar ei chlustog anferthol blodeuog mae ei chynffon yn mynd yn gyflymach na'r gwynt mewn balchder. Mae'r ci hyd yn oed yn gwenu o glust i glust ac yn codi'i llaw mewn pleser.

Dychmygaf Cadi yn bownsio fel ffwlbart wedi troi'n ddwl o gwmpas y tŷ, yn berwi o groeso ac yn dawnsio o fy ngweld. Llyfa ei dafod coch fy wyneb, ydy hi'n meddwl fy mod i'n gandifflos tybed?

Dwi'n gwybod yn iawn fy mod i'n codi cyn cŵn Caer a chyn iddi wawrio ar adegau. Mae gennyf drefn dyddiol, trefn pendant i bob rhan o'r diwrnod. Fel bore arferol gwisgaf fy nillad. Twr o haenau i wneud yn hollol siwr fy mod yn gynnes braf wrth gamu allan i'r gwynt rhewllyd o oer. Cyfleustodau, dyna lle mae holl degannau, bwyd ac offer angenrhediol yn cynnwys tennyn dychmygol Cadi. Erbyn hyn, mae hi fel tasa hi'n deall yn union be dwi n feddwl pan dwi n dweud "Gan dy fod i wedi bod yn gymaint o ferch dda yr wythnos yma rwyf am dy wobrwyro drwy fynd a ti am dro hir, hir, hir o amgylch y pentref, Glantwymyn". Ac i fod yn hollol onest, rwy'n dechrau ei deall hithau rwan, pan mae hi yn tynnu ar y tennyn mae'n arwydd ei bod eisiau stopio ac ei bod ddim yn gallu cerdded cam ymhellach. Wrth i mi ofyn y cwestiwn yma yn disgwyl am ymateb, mae ias o gyffro yn cynhyrfu trwy fy nghorff. Ei hymateb hi hefyd yw ysgwyd ei phen, ei chynffon a'i phen ôl yn wyllt. Mae ei llygaid llachar yn syllu ar fy llygaid innau ac yn disgleirio fel ser pan fo'r awyr fel y fagddu.

Ond, wrth iddi ddechrau nosi, byddaf i yn dechrau paratoi i fynd i'r ciando a hithau fy nghyfaill dychmygol yn dechrau setlo i fynd i'w basged. Dydw i ddim eisiau codi i wynebu slipars Dad wedi eu cnoi yn racs, corneli'r byrddau wedi crafu a godre'r llenni wedi'i rhwygo fel rhubanau. Heb am anghofio am glustogau a charpedi ofnadwy o ddrud Mam. Ond, erbyn meddwl efallai ei bod yn well i fy nghyfaill dychmygol aros yn ddychmygol!